

Crynodeb o'r ymatebion

1. Daeth cyfanswm o 135 o ymatebion i'r papur ymgynghori i law. O'r rhain, daeth y grŵp mwyaf o ymatebion (tua 25%) gan y diwydiant yswiriant. At ei gilydd, daeth niferoedd cyfartal o ymatebion i law gan gyfreithwyr yn cynrychioli hawlwy, cyfreithwyr yn cynrychioli diffynyddion, a bargyfreithwyr. Cafwyd ymatebion hefyd gan ystod o gyrff eraill, gan gynnwys cynghorwyr ariannol, actiwariaid, cyfrifwyr fforensig, sefydliadau amddiffyn meddygol, cyrff eraill y gwasanaeth iechyd, sefydliadau busnes a masnach, cyrff yn cynrychioli'r proffesiwn cyfreithiol, a'r farnwriaeth.
2. Dadansoddwyd yr ymatebion o ran eu safbwyntiau ynghylch a oes angen newid y fethodoleg sy'n rheoli'r ffordd y mae cyfradd y disgownt yn cael ei chyfrifo ar hyn o bryd er mwyn sicrhau cyhyd ag y bo'n rhesymol bosib fod y sawl a gafodd anaf yn cael iawndal llawn heb gael gormod na rhy ychydig o iawndal; a ddylid cyflwyno darpariaethau er mwyn adolygu'r gyfradd yn rheolaidd; a ddylid newid y trefniadau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan yr Arglwydd Ganghellor i bennu'r gyfradd; ac a ddylid cymryd camau i annog mwy o ddefnydd o orchmynion talu cyfnodol.
3. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn bod y gyfraith ynghylch sut y pennir cyfradd y disgownt ar hyn o bryd yn ddiffygiol yn rhyw ffordd neu'i gilydd, er bod rhai o'r farn nad y gyfraith ei hun oedd ar fai, ond yn hytrach y ffordd y mae'n cael ei chymhwyso. Serch hynny, dywedodd mwyafrif clir o'r ymatebwyr y dylid newid y gyfraith mewn rhyw ffordd, naill ai i newid y fethodoleg a ddefnyddir i bennu'r gyfradd, i ddarparu ar gyfer adolygiadau rheolaidd, neu i newid y trefniadau o ran pwy sy'n pennu'r gyfradd.
4. Roedd bron pob un o'r ymatebwyr a wnaeth sylw yn cytuno ei bod yn hynod annhebygol y byddai hawlwy yn cael cyngor i fuddsoddi'r cwbl o'r cyfandaliad mewn un math o ased, a'i bod beth bynnag yn hynod anymarferol, a heb fod yn gyfan gwbl heb risg, buddsoddi'n llwyr yng ngwarantau mynegrifol y llywodraeth (ILGS). Er hynny, roedd gwahaniaeth barn ynghylch ai mater o ddewis mewn gwirionedd oedd defnyddio cymysgedd mwy amrywiol o fuddsoddiadau, neu a oedd y gyfradd ddisgownt flaenorol o 2.5% wedi peri i hawlwy fuddsoddi fel hyn.
5. O ran y proffil risg i'w dybio at ddibenion pennu cyfradd y disgownt, roedd gwahaniaeth barn hefyd ynghylch a ddylid ystyried bod hawlwy yn fuddsoddwyr "gwrth-risg iawn" neu "heb ddim risg" (fel y mae pethau nawr) neu fel buddsoddwyr risg isel (yn buddsoddi mewn portffolio cymysg sy'n cydbwyso buddsoddiadau risg isel), er bod ychydig yn fwy o'r ymatebwyr o'r farn bod yr ail ddull hwn yn fwy priodol. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno'n fras â'r egwyddorion ar gyfer pennu'r gyfradd a nodwyd yn y papur ymgynghori, er bod llawer ohonynt wedi awgrymu newidiadau. Roedd mwyafrif bach yn gwrthwynebu'r syniad y dylid ystyried y gorchmynion talu cyfnodol sydd ar gael yn gyffredinol wrth bennu cyfradd y disgownt, ond roedd mwyafrif mwy yn gwrthwynebu'r syniad y dylid defnyddio cyfradd ddisgownt wahanol i hawlwy sy'n dewis cyfandaliad yn hytrach na gorchmyn talu cyfnodol.
6. Roedd mwyafrif sylweddol yn gwrthwynebu'r opsiwn i bennu cyfraddau gwahanol i wahanol achosion. Ymhlith y rhai a oedd o blaid opsiwn o'r fath, roedd y mwyafrif yn ffafrio dull yn seiliedig ar hyd dyfarniad yr iawndal yn hytrach nag ar wahanol gategoriâu o golledion.
7. Roedd y grŵp mwyaf o ymatebion ynghylch pwy ddylai bennu'r gyfradd yn ffafrio'r Arglwydd Ganghellor (neu berson enwebedig arall) gan ddilyn cyngor gan banel

arbenigol annibynnol. Roedd yr ail grŵp mwyaf yn ffafrio pennu'r gyfradd gan banel annibynnol o arbenigwyr. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno â'r cynnig y dylid cynnwys sbardun i adolygu'r gyfradd yn y ddeddfwriaeth. Roedd gwahaniaeth barn ynghylch a ddylai hyn fod yn gysylltiedig ag adenillion ar fuddsoddiadau, neu a ddylai fod cyfnodau adolygu penodol, neu gyfuniad o'r ddau. O'r rhai a oedd o blaid sbardun yn gysylltiedig â newidiadau i adenillion ar fuddsoddiadau, roedd y farn yn rhanedig rhwng y rhai a oedd yn meddwl y dylai hyn fod yn ychwanegol i gyfnod adolygu penodol a'r rhai a oedd yn meddwl y dylai fod yn lle cyfnod o'r fath.

8. Roedd mwyafrif sylweddol o'r farn bod y gyfraith bresennol ynghylch gorchmynion talu cyfnodol yn foddhaol, ac ychydig iawn o frwdfrydedd a fynegwyd dros newidiadau i greu naill ai ragdybiaeth neu ofyniad o blaid gorchmynion talu cyfnodol. Cafwyd nifer fach o awgrymiadau ar gyfer canllawiau i egluro agweddau ar y gyfraith fel y mae.
9. Mae'r adran yn ddiolchgar iawn i bawb a gymerodd ran yn yr ymgynghoriad ac mae wedi ystyried yr ymatebion yn ofalus.

Casgliadau a'r camau nesaf

1. Mae'r rhan hon o'r ymateb i'r ymgynghoriad yn amlinellu sut y mae'r ymgynghoriad wedi dylanwadu ar gasgliadau'r Llywodraeth ynghylch sut y dylid pennu cyfradd y disgownt yn y dyfodol a'r hyn a fydd yn digwydd nesaf.
2. Yn sgil y cyhoeddiad ynghylch newid y gyfradd a'r ymgynghoriad arfaethedig ar 27 Chwefror dywedodd yr Arglwydd Ganghellor ar y pryd:

Bydd y Llywodraeth yn adolygu'r fframwaith a ddefnyddiwyd gennyf i bennu'r gyfradd heddiw i sicrhau ei fod yn dal i fod yn addas at y diben yn y dyfodol. Byddaf yn cynnal ymgynghoriad cyn y Pasg a fydd yn ystyried opsiynau ar gyfer diwygio gan gynnwys: a ddylai'r gyfradd gael ei phennu yn y dyfodol gan gorff annibynnol; a fyddai cynnal adolygiadau'n amlach yn rhoi mwy o ragweladwyedd a sicrwydd i'r holl bartion; ac a yw'r fethodoleg – sydd i bob pwrpas yn tybio mai mewn stociau gilt mynegrifol yn unig y byddai hawlwy'r yn buddsoddi – yn briodol at y dyfodol. Ar ôl cynnal yr ymgynghoriad, a fydd yn ystyried a oes fframwaith gwell neu decach i hawlwy'r a diffynyddion, bydd y Llywodraeth yn cyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth angenrheidiol yn gynnar.
3. Mae'r Llywodraeth yn awr yn bwriadu gwireddu'r ymrwymiad i greu fframwaith gwell a thecach ar gyfer pennu cyfradd y disgownt.
4. Wrth baratoi ei chynigion mae'r Llywodraeth wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn ofalus. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ystyried canlyniadau ymchwil a gomisiynwyd gan yr adran gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ("GAD") a Sefydliad Cyfraith Ryngwladol a Chymharol Prydain ("BIICL") ynghyd â thystiolaeth arall, gan gynnwys yn benodol ymatebion i holiaduron a gyhoeddwyd gan aelodau o'r Gymdeithas Rheoli Cyfoeth, y Gymdeithas Cyllid Personol a Chymdeithas y Cynghorwyr Ariannol Proffesiynol ynghylch y buddsoddiadau y byddai pobl sy'n hawlio am anafiadau personol yn cael eu cynghori i'w gwneud.
5. Dadansoddodd ymchwil GAD effeithiau pennu cyfradd y disgownt gan ddefnyddio gwahanol archwaethau risg a strategaethau buddsoddi. Er mwyn gwneud hyn defnyddiwyd modelau i efelychu gwahanol sefyllfaoedd.
6. Edrychodd ymchwil BIICL ar gyfradd y disgownt ar gyfer cwantwm mewn achosion anafiadau personol o safbwynt cyfraith gymharol. Canolbwyntiwyd ar yr awdurdodaethau hyn: Taleithiau Awstralia, Taleithiau Canada, Ffrainc, yr Almaen, Hong Kong, Iwerddon, Sbaen, De Affrica. Mae ymchwil BIICL yn dangos bod amryw o wahanol gyfraddau a ffyrdd o'u pennu yn yr awdurdodaethau a ystyriwyd, ond bod pob un yn gweithredu egwyddor iawndal llawn, a lle mae hynny'n berthnasol, yn cynnig strategaeth fuddsoddi amddiffynnol i'r hawlwy'r. Nododd BIICL ystod eang o gyfraddau'n amrywio o 6% yn Nhalaith Victoria yn Awstralia i ddiodeffwyr damweiniau cerbydau modur a'r gweithle, i 3.5% yn Sbaen. Nid oedd gan yr un awdurdodaeth a chanddi un gyfradd ddisgownt gyfradd negyddol fel sydd yn y DU ar hyn o bryd. Mae adroddiadau ymchwil GAD a BIICL yn cael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'r ymateb hwn.
7. Man cychwyn cyfraith iawndal yw y dylai hawlwy'r gael iawndal llawn am y colledion a ddiodeffwyd ganddynt oherwydd anaf a achoswyd gan y diffynnydd. Nid oedd hyn yn destun trafod yn yr ymgynghoriad ac nid yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi unrhyw reswm i ailystyried y safbwynt hwn. Amcan cymhwyso cyfradd ddisgownt o hyd felly fydd cefnogi rheol iawndal 100% fel bod hawlwy'r yn derbyn iawndal llawn am golled a achoswyd gan anaf a achoswyd ar gam heb fod yn fwy nac yn llai na hynny.

8. Maent yn amlygu anfodlonrwydd cyffredinol â gwahanol agweddau ar y gyfraith fel y mae am amryw o resymau ond dim consensws cryf ar draws y gwahanol grwpiau buddiant ynghylch sut yn benodol y dylid diwygio'r gyfraith heblaw mewn nifer fach o feysydd cyfyngedig, megis bod angen cynnal adolygiadau'n amlach yn y dyfodol nag o'r blaen ac mai da o beth fyddai cadw'r cydbwysedd presennol rhwng cyfandaliadau a gorchmynion talu cyfnodol.
9. **O ran sut y dylid pennu'r gyfradd**, roedd yr ymatebion yn rhanedig ynghylch yr archwaeth risg wrth fuddsoddi y dylid ei dybio wrth bennu'r gyfradd (mae grwpiau buddiannau hawlwy'r at ei gilydd yn ffafrio'r lefel risg isel iawn bresennol a'r diffynyddion yn ffafrio lefel uwch o risg, er ei bod yn dal i fod yn isel). Ond roedd cytundeb cyffredinol y dylid trin hawlwy'r fel petaent yn fwy gwrth-risg na buddsoddwyr gochelgar arferol. Yn amodol ar y gwahaniaeth barn hwn roedd cefnogaeth eang i'r egwyddorion cyffredinol a gynigir ar gyfer pennu'r gyfradd.¹ Roedd yn glir hefyd, ac ystyried yr ymatebion a chanlyniadau gwaith ymchwil arall gyda'i gilydd, fod hawlwy'r yn buddsoddi mewn portffolios cymysg risg isel ac nid mewn buddsoddiadau "risg isel iawn", megis Stociau Gilt Mynegrifol yn unig.
10. Ar sail y dystiolaeth a'r dadansoddiadau, sy'n cael eu hesbonio yn yr Asesiad Effaith, credwn fod y tybiaethau a wnaed o dan y gyfraith bresennol ynghylch pennu cyfradd y disgownt o ran sut y mae hawlwy'r yn buddsoddi yn afrealistig, ac fel y mae pethau, y gallai'r gyfradd arwain at ddyfarniadau mwy o lawer nag iawndal 100%. Mae'r tybiaethau afrealistig sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd yn cael effaith sylweddol ar drethdalwyr drwy gost ychwanegol setliadau anafiadau personol a delir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a chyrrff eraill yn y sector cyhoeddus; a busnesau a defnyddwyr unigol drwy breimymau yswiriant uwch am fod cost dyfarniadau'n gallu bod yn fwy nag iawndal 100%.
11. **O ran pryd y dylid adolygu'r gyfradd** roedd cytundeb cyffredinol y dylid cynnal adolygiadau'n amlach nag o'r blaen, gyda mwy o ragweladwyedd, ond roedd ystod o wahanol safbwyntiau ynghylch hyd y cyfnod ac a ddylai fod yn un penodol. Mae'r Llywodraeth yn derbyn y farn nad yw'r system bresennol yn ddigon strwythuredig i ddarparu rhagweladwyedd a sicrwydd ac mae'n bwriadu cyflwyno terfynau amser ar gyfer cynnal adolygiadau. Er bod cefnogaeth i gyfnodau byrrach a rhai hwy fel ei gilydd, mae'r Llywodraeth o'r farn bod ei gwneud yn ofynnol cynnal adolygiad o leiaf bob tair blynedd yn gyfaddawd rhesymol.
12. **O ran pwy ddylai bennu'r gyfradd**, roedd cefnogaeth i gyflwyno mwy o dryloywder ac arbenigedd annibynnol i'r broses o bennu'r gyfradd, ond er bod rhai ymatebwyr yn ffafrio cael panel annibynnol i bennu'r gyfradd, roedd y diffynyddion at ei gilydd yn dadlau o blaid rheolaeth wleidyddol ar y penderfyniad terfynol ond gyda chyingor gan banel

¹ Mae paragraff 36 y Papur Ymgynghori'n cynnig yr egwyddorion cyffredinol isod: "The general principles for setting the rate might be as follows:

The discount rate should be the rate that in the reasonable opinion of the setter is (a) consistent with the returns expected from the investment strategy implied by the appropriate risk profile of the claimant (see below) and (b) satisfies the following:

- the lump sum payable after the application of the discount rate plus the assumed income expected to be earned should represent the full loss, neither more nor less, caused by the wrongful injury;
- the losses and costs assessed by the court to flow from the injury should be met on time; and
- the capital and the income assumed to be earned from the award must be exhausted at the end of the period for which the award is made.

Due regard should be given for the following factors:

- actual returns that claimants are likely to receive on investments; and
- availability of a PPO in respect of some or all of the loss."

annibynnol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod y gefnogaeth gyffredinol i gynnwys panel arbenigol annibynnol yn y broses o bennu'r gyfradd. Er hynny, mae'r Llywodraeth hefyd yn derbyn pwysigrwydd darparu atebolrwydd gwleidyddol clir i benderfyniad y mae canlyniadau ariannol a chyllidol clir iddo, er nad yw ond yn arferadwy o fewn cyfyngiadau'r gyfraith.

13. Mae'n amlwg bod angen fframwaith gwell a thecach ar gyfer pennu cyfradd y disgownt. Mae'r Llywodraeth felly'n bwriadu gwneud y newidiadau isod i'r gyfraith:
 - a. Bydd y gyfradd yn cael ei phennu gan gyfeirio at gyfradd ddisgwylidig yr adenillion ar bortffolio cymysg risg isel o fuddsoddiadau yn hytrach na buddsoddiadau risg isel iawn fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, ac wrth asesu'r cyfraddau hynny dylid ystyried arferion buddsoddi gwirioneddol hawlwy'r a'r buddsoddiadau sydd ar gael iddynt. Bydd hyn yn gwneud y gyfradd yn fwy realistig.
 - b. Dylid gosod yr egwyddorion ar gyfer pennu cyfradd y disgownt mewn statud.
 - c. Caiff y gyfradd ei hadolygu yn y lle cyntaf yn syth ar ôl i'r ddeddfwriaeth ddod i rym, ac ar ôl hynny, o leiaf bob tair blynedd, gan ailbennu'r cyfnod pan newidir y gyfradd. Cwblheir pob adolygiad ymhen 180 diwrnod ar ôl iddo gychwyn. Bydd hyn yn fodd o osgoi gormod o oedi rhwng adolygiadau, a fydd yn gwneud newidiadau i'r gyfradd yn haws eu rhagweld a'u rheoli.
 - d. Yr Arglwydd Ganghellor fydd yn pennu'r gyfradd, ar ôl ymgynghori â phanel arbenigol (heblaw'r adolygiad cychwynnol a gynhelir gan yr Arglwydd Ganghellor gyda chyngor gan Actiwari'r Llywodraeth). Bydd Trysorlys EM, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, hefyd yn ymgynghori statudol ym mhob adolygiad. Cadeirir y panel gan Actiwari'r Llywodraeth a bydd yn cynnwys pedwar aelod arall sydd â phrofiad fel actiwari, rheolwr buddsoddiadau ac economegydd, ac yn olaf, materion buddsoddiadau defnyddwyr.
 - e. Bydd yn dal i fod yn bosib pennu cyfraddau gwahanol i wahanol fathau o achosion, gan gynnwys gan gyfeirio at hyd y dyfarniad.
 - f. Ni chynigir newidiadau i'r gyfraith ynghylch gorchmynion talu cyfnodol.
14. O dan y gyfraith newydd bydd cyfradd y disgownt yn adlewyrchu cyfradd ddisgwylidig yr adenillion ar bortffolio cymysg risg isel. Mae'n debyg y bydd ystod o bortffolios a chyfraddau adenillion y gellid eu defnyddio wrth bennu'r gyfradd. Mater i'r Arglwydd Ganghellor fydd cymhwyso'r egwyddorion cyfreithiol a amlinellir yn y ddeddfwriaeth a phenderfynu ar sail hynny ble yn yr ystod risg isel y dylid pennu'r gyfradd.
15. Yr egwyddor gyfreithiol allweddol fydd y dylai'r gyfradd fod yn un y gellid disgwyl, ym marn resymol yr Arglwydd Ganghellor, i'r sawl sy'n derbyn cyfandaliad iawndal am golled ariannol yn y dyfodol, ar ôl cael cyngor priodol, ei chael pe bai'n buddsoddi'r cyfandaliad mewn portffolio cymysg risg isel â'r nod o sicrhau (a) y byddai'r cyfandaliad a'r incwm yn deillio ohono yn talu am y colledion a'r costau y'i dyfarnwyd ar eu cyfer pan ddisgwylir iddynt godi; a (b) y byddai'r iawndal perthnasol yn dod i ben ar ddiwedd y cyfnod y'i dyfarnwyd ar ei gyfer. Yn hyn o beth mae'n rhaid i'r Arglwydd Ganghellor ystyried y buddsoddiadau sydd ar gael a'r buddsoddiadau gwirioneddol a wneir gan hawlwy'r; a rhaid rhoi ystyriaeth i gostau trethiant, chwyddiant a rheoli buddsoddiadau y mae'r Arglwydd Ganghellor yn tybio eu bod yn briodol.
16. Mae'r Llywodraeth yn cyhoeddi cymalau drafft yn ymgorffori'r casgliadau hyn er mwyn casglu safbwyntiau pellach, ac ar ôl ystyried yr ymateb i'r craffu hwn cyn y broses ddeddfu mae'n bwriadu cyflwyno deddfwriaeth i ddeddfu'r newidiadau arfaethedig hyn i'r gyfraith yn y Senedd cyn gynted ag y bydd amser seneddol yn caniatáu hynny. Ar ôl eu

deddfu bydd y newidiadau'n dod i rym yn y ffordd arferol ar ddyddiad a bennir gan yr Arglwydd Ganghellor, a fydd yn cychwyn adolygiad o'r gyfradd (sef y gyfradd ddiwethaf o dan y gyfraith flaenorol) ymhen 90 diwrnod. Cwblheir yr adolygiad ymhen 180 diwrnod ar ôl iddo gychwyn. Bydd cyfradd newydd yn cael ei phennu ar ôl hynny os yw'r Arglwydd Ganghellor o'r farn fod hynny'n briodol. Daw'r gyfradd newydd i rym ar ddyddiad a bennir gan yr Arglwydd Ganghellor